


nmc
Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Newidiadau i sut mae nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn cael eu dysgu

Dywedwch eich dweud





# Pwy ydym ni

Ni yw'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC)




Rydym yn sicrhau bod gan nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio y sgiliau a'r wybodaeth sydd arnynt eu hangen er mwyn gwneud eu swyddi yn dda ac mewn ffordd ddiogel.




Rydym yn cadw rhestr o'r holl bobl sy'n cael gweithio fel nyrsys a bydwragedd yn y DU. Rydym hefyd yn cadw rhestr o'r cymdeithion nyrsio yn Lloegr.

Gelwir y rhestr hon yn **Gofrestr**.




Mae rhai o'r geiriau yn y daflen hon mewn **argraff fras**. Mae rhestr o'u hystyron ar y diwedd.

# Am beth y mae hyn



Rydym eisiau gwybod beth yr ydych chi'n ei feddwl am rywbeth o'r enw **dysgu drwy ymarfer**.



**Dysgu drwy ymarfer** yw ble mae myfyrwyr yn dysgu drwy ofalu am bobl a chleifion mewn lleoliadau go iawn iechyd a gofal.

## Mwy o wybodaeth




Pan fo rhywun eisiau bod yn nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio yn y Deyrnas Unedig, rhaid iddynt astudio cwrs yr ydym **wedi ei gymeradwyo.**

Mae **wedi ei gymeradwyo** yn golygu ein bod yn credu bod y cwrs yn cyrraedd ein **safonau** addysg.



Mae ein safonau addysg yn dweud:

- sut y dylai myfyrwyr gael eu dysgu
- yr hyn y dylai myfyrwyr ei ddysgu er mwyn dod yn nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio.




Mae cyrraedd y safonau addysg cywir yn golygu fod ansawdd addysg myfyriwr yn dda iawn.



Mae myfyrwyr yn dysgu mewn ffyrdd gwahanol.

Mae hanner eu cwrs yn yr ystafell ddosbarth.



Mae hanner eu cwrs mewn llefydd go iawn fel ysbytai, clinigau, cartrefi gofal a hyd yn oed yng nghartref rhywun.



I wneud hyn, rhaid i fyfyrwyr fynd ar **leoliad** lle maent yn mynd i weithle go iawn i ymarfer eu sgiliau.



Mae dysgu drwy ymarfer yn ffordd bwysig iawn y mae myfyrwyr yn dysgu i ofalu am bobl yn iawn.



Mae myfyrwyr yn dysgu drwy:

- siarad gyda chlaf am ei salwch



- rhoi pigiad i rywun



- helpu dynes sy’n esgor ac yn geni plentyn.



Mae nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn gwirio bod myfyrwyr yn gwneud hyn yn ddiogel.




Os na chaiff myfyrwyr gyfle i ymarfer eu dysg mewn sefyllfa go iawn medrant ddysgu drwy ddefnyddio cleifion ffug, actorion neu offer. Gelwir hyn yn **dysgu drwy ymarfer ffug**.

# Pam ydym ni'n gofyn beth rydych yn ei feddwl?




Rydym yn edrych ar ein safonau addysg ynghylch dysgu drwy ymarfer.




Fe wnaethom wirio bod ein safonau addysg yn cynnwys popeth y mae angen i fyfyriwr ei wybod ar gyfer gofalu am bobl yn briodol pan maent yn ymuno â'n Cofrestr.



Siaradom gyda:

- myfyrwyr
- athrawon prifysgol
- pobl ar ein Cofrestr
- cleifion.



Dywedodd pobl wrthym y gall ansawdd yr ymarfer fod yn well i rai myfyrwyr nag i eraill.



Er enghraifft, weithiau mae gan nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio ormod o waith i'w wneud. Mae hynny'n golygu nad oes ganddynt ddigon o amser i wirio dysgu drwy ymarfer myfyriwr yn drwyadl.




Rydym ni eisiau gwneud pethau'n gliriach ac yn decach fel bod pob myfyriwr yn medru meddu ar y sgiliau a gwybodaeth priodol i gyflawni eu swyddi yn dda.



Ni fedrwn wneud hyn ar ein pennau ein hunain ac nid ydym yn gyfrifol am bob un o'r pethau hyn. Felly efallai y bydd angen cymorth arnom gan bobl eraill sy'n gweithio gyda iechyd a gofal.

# Rydym eisiau i chi ddweud eich dweud




Rydym eisiau gwybod a ddylem newid rhai o'n safonau addysg.




Gallwch ddweud eich barn wrthym drwy:

Lenwi ein arolwg ar-lein **nmcuk.qualtrics.com/jfe/form/SV_9pHOhR8fFiYCeyi**





Rhaid i chi ymateb erbyn 23 Gorffennaf 2026



Bydd eich atebion yn ein cynorthwyo i wneud y dewisiadau cywir.



Byddwn yn edrych ar syniadau pawb i'n helpu i benderfynu a oes angen i ni newid rhai o'n safonau addysg.




Byddwn yn gadael i chi wybod os ydym yn gwneud unrhyw newidiadau.



Os oes cwestiynau gennych am hyn, ebostiwch ni ar:
**consultations@nmc-uk.org**

# Ein cwestiynau




Mae'r cwestiynau hyn am newidiadau y dylem eu gwneud i'r safonau addysg i fyfyrwyr nyrsio, bydwragedd a chymdeithion nyrsio.




Mae'r cwestiynau'n gofyn am:

- **addasiadau rhesymol**

  **Addasiadau rhesymol** yw newidiadau bychan sy'n helpu pobl gydag anabledd i gael eu trin yn gydradd.



- cyrsiau i nyrsys



- cyrsiau i fydwragedd.





## Addasiadau rhesymol

Dywed y gyfraith fod yn rhaid gwneud y newidiadau hyn.

Dywed ein safonau addysg:



- dylai pob myfyriwr nyrsio, bydwraig a chydymaith nyrsio deimlo’n gyfforddus wrth ofyn am addasiadau rhesymol



- dylai athrawon prifysgol ac unrhyw un sy’n cefnogi myfyrwyr gyda’u dysgu sicrhau bod y addasiadau hyn yn cael eu rhoi mewn lle yn y dosbarth ac yn nysgu drwy ymarfer.



Rydym eisiau sicrhau bod myfyrwyr, athrawon prifysgol ac unrhyw un sy’n cefnogi myfyrwyr gyda’u dysgu yn deall beth yw addasiadau rhesymol.



Bydd hyn yn eu cynorthwyo i weithio efo’i gilydd i wneud y newidiadau bychan hyn yn yr ystafelloedd dosbarth a llefydd dysgu drwy ymarfer os yw myfyrwyr yn gofyn amdanynt.



1. Ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno y dylem ei gwneud yn glir bod rhaid i athrawon prifysgol mewn dosbarthiadau ac mewn llefydd dysgu drwy ymarfer wrando ar fyfyrwyr pan ydynt yn gofyn am addasiadau rhesymol ac, os yn bosib, gwneud i’r newidiadau hynny ddigwydd?




2. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda gwneud i athrawon prifysgol mewn dosbarthiadau ac mewn llefydd dysgu drwy ymarfer weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod ceisiadau am addasiadau rhesymol gan fyfyrwyr yn cael eu rhoi mewn lle, os oes posib gwneud hynny?

## Gwella addysg nyrsio a bydwreigiaeth trwy ddysgu gwrth-hiliaeth, diogelwch a pharch



3. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylem hyfforddi myfyrwyr nyrsio, cymdeithion nyrsio a bydwreigiaeth mewn gwrth-hiliaeth, diogelwch a pharch tuag at bawb? Bydd hyn yn helpu myfyrwyr i ddysgu sut i ofalu am bobl o wahanol gefndiroedd yn y ffordd gywir.

## Newidiadau y'u hawgrymir i gyrsiau i nyrsys a chymdeithion nyrsio



4. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda newid ein safonau addysg fel bod bydwraig gyda chyflwysterau ychwanegol yn cael gofalu am fyfyriwr nyrsio pan ydynt ar leoliad?



5. Dywedodd rhai myfyrwyr ac athrawon prifysgol wrthym eu bod yn poeni mwy am gwblhau eu horiau gwaith nag ansawdd dysgu.



Rydym eisiau newid yr amser sydd ei angen ar fyfyrwyr i astudio o o leiaf 4,600 awr i o leiaf 3,600 awr.



Bydd hanner yr amser o hyd yn yr ystafell ddosbarth neu yn gwneud gwaith fel darllen ac ysgrifennu, a bydd hanner yr amser ar leoliad.




Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r newid hwn?



6. Dywed ein safonau addysg bod rhaid i fyfyrwyr cydymaith nyrsio astudio am o leiaf hanner yr amser y mae myfyrwyr nyrsio'n ei wneud.



Os newidiwn y nifer o oriau sydd angen i fyfyrwyr nyrsio eu gweithio  o o leiaf 4,600 i o leiaf 3,600, byddwn o hyd yn gwneud i fyfyrwyr cydymaith nyrsio astudio am 2,300 awr.




Mae hyn am nad yw llai na 2,300 awr yn ddigon o amser i ddysgu'r hyn sydd ei angen iddynt ei ddysgu er mwyn dod yn gydymaith nyrsio cymwys.



Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r newid hwn?



7. Os ydym yn newid faint o amser sydd angen i fyfyrwyr nyrsio astudio i o leiaf 3,600 awr, bydd angen i ni newid faint o'u dysgu drwy ymarfer sy'n cael bod yn ymarfer dysgu ffug.



Mae hyn er mwyn i fyfyrwyr gael y cymysgedd priodol o ddysgu bywyd go iawn a dysgu drwy ymarfer ffug.



Ar hyn o bryd, caiff myfyrwyr wneud hyd at chwarter o’u dysgu drwy ymarfer fel dysgu drwy ymarfer ffug.



Ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â chadw dysgu drwy ymarfer ffug fel dim mwy na chwarter oriau ymarfer dysgu?



8. Rydym eisiau sicrhau bod pob myfyriwr nyrsio yn gwneud peth dysgu drwy ymarfer yn y gymuned.

Er enghraifft, yng nghartrefi pobl, yn hytrach nag ysbytai yn unig.





Golyga hyn y bydd myfyrwyr yn dysgu sut beth yw bod gyda phobl mewn gwahanol leoliadau iechyd a gofal.



Ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â’r newid hwn?

## Newidiadau y’u hawgrymir i gyrsiau i fydwragedd



9. Y mae ein safonau addysg yn dweud bod rhaid i fyfyrwyr bydwreigiaeth ofalu am o leiaf 40 o wragedd wrth iddynt esgor a rhoi genedigaeth.



Y mae ein safonau hefyd yn dweud y dylai myfyrwyr bydwreigiaeth ofalu am o leiaf 40 o wragedd eraill sydd ag anghenion ychwanegol.



Rydym eisiau gwella addysg myfyrwyr bydwreigiaeth fel eu bod yn medru gofalu am o leiaf 40 o wragedd sydd ag anghenion ychwanegol.



Beth ydych chi'n meddwl y dylem ei wneud i wella hyn?




10. Rydym eisiau newid pa mor hir mae myfyrwyr bydwreigiaeth yn astudio o o leiaf 3 blynedd i o leiaf 4 blynedd.



Bydd hyn yn rhoi mwy o amser iddynt ddysgu fel bod ganddynt y sgiliau, gwybodaeth a hyder i weithio fel bydwraig.



Ydych chi yn cytuno neu'n anghytuno?




11. Credwn y dylai myfyrwyr bydwreigiaeth wneud un o’u lleoliadau ymarfer ar ddiwedd eu cwrs ac y dylai’r lleoliad bara am o leiaf 8 wythnos.




Bydd hyn yn eu helpui i ofalu am bobl yn briodol pan ydynt yn ymuno â’n Cofrestr.



Ydych chi yn cytuno neu’n anghytuno?




12. Os yw cyrsiau bydwreigiaeth yn dod yn 4 blynedd yn lle 3, ydych chi yn cytuno neu yn anghytuno y dylem wneud cyrsiau yn hirach ar gyfer nyrsys sydd eisiau bod yn fydwragedd?



13. Rydym eisiau sicrhau bod myfyrwyr bydwreigiaeth yn cael cymorth gan yr un bydwragedd gyda'r profiad priodol tra maent ar eu lleoliadau, yn hytrach na llawer o wahanol bobl.



Credwn bod hyn yn well ar gyfer dysgu.



Ydych chi yn cytuno neu'n anghytuno?



14. Mae myfyrwyr bydwreigiaeth yn defnyddio dysgu ymarfer ffug fel rhan o'u dysgu ymarfer.



Gall dysgu ymarfer ffug helpu myfyrwyr i ddysgu pan nad oes digon o gyfleoedd yn y byd go iawn i wneud hynny.  Er enghraifft, helpu gwragedd i roi genedigaeth pan fo'r babanod mewn safle anghywir. Gelwir hyn yn **esgoriad ffolennol**.



Nid yw'r amser y mae myfyrwyr yn ei dreulio ar ddysgu ffug yn cyfrif tuag at eu nifer terfynol o oriau dysgu drwy ymarfer, ac rydym eisiau ystyried newid hyn.



Ydych chi yn cytuno neu'n anghytuno y dylai dysgu ymarfer ffug gyfrif tuag at oriau cyflawn dysgu drwy ymarfer myfyriwr bydwreigiaeth?



15. Ydych chi'n credu y bydd y newidiadau hyn yn effeithio ar bobl, ac ystyried eu **nodweddion gwarchodedig** neu bethau eraill fel a oes plant ganddynt neu sut swyddi oedd gan eu rhieni?

**Nodweddion gwarchodedig** yw:

- oedran
- trosglwyddiant rhyw
- bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil
- bod yn feichiog neu ar absenoldeb mamolaeth
- anabledd
- hil
- crefydd neu gredo
- rhyw
- tueddfryd rhywiol.



16. Ydych chi’n credu yn bydd y newidiadau hyn yn effeithio ar bobl sy’n siarad Cymraeg?

# Ystyr y geiriau

**Bydwragedd**: Pobl y'u dysgir i roi cefnogaeth i wragedd, gofal a chyngor yn ystod beichiogrwydd, llafur, yr enedigaeth ac wedi genedigaeth y baban.

**Cofrestr**: Rhestr o'r bobl sydd â'r hyfforddiant priodol a sydd yn bodloni ein rheolau i weithio fel nyrs neu fydwraig yn y DU, neu gydymaith nyrsio yn Lloegr. Pobl sy'n medru darparu gofal da a diogel.

**Cymeradwy** golyga ein bod yn credu bod y cwrs yn cyrraedd ein safonau addysg.

**Cymdeithion nyrsio**: Swydd yn Lloegr yw hon. Dysgir cymdeithion nyrsio i weithio gyda nyrsys i gefnogi a gofalu am gleifion.

**Dysgu drwy ymarfer**: Ble mae myfyrwyr yn dysgu drwy ofalu am bobl a chleifion mewn lleoliadau iechyd a gofal go iawn.

**Dysgu ymarfer ffug**: Os na chaiff y myfyrwyr y cyfle i ymarfer rhywbeth mewn bywyd go iawn, gallant ddysgu wrth ddefnyddio cleifion ffug, actorion neu offer yn lle cleifion go iawn.

**Esgoriad ffolennol:** Pan yw baban wedi ei leoli gyda'u pen ôl neu draed yn dod allan gyntaf yn lle eu pen.

**Gwrth-hiliol:** Mae'n golygu mwy na pheidio â bod yn hiliol. Mae'n golygu gwneud rhywbeth ynghylch hiliaeth a sefyll yn ei erbyn. Golyga hyn newid ein rheolau, sut rydym yn gwneud pethau a'r ffordd yr ydym yn gweithio er mwyn sicrhau bod pawb yn cael eu trin yn deg ac yn cael bywyd gwell.

**Hiliaeth:** Pan fo rhywun yn trin rhywun arall yn wahanol neu yn annheg oherwydd eu cefndir, diwylliant neu ffydd grefyddol, neu sut y maent yn byw.

**Lleoliad**: Pan fo myfyrwyr yn mynd i le gweithio go iawn i ymarfer eu sgiliau.

**Newidiadau rhesymol:** Newidiadau bychan sy'n medru helpu pobl gydag anabledd i gael eu trin yn gydradd. Dywed y gyfraith y dylai newidiadau rhesymol gael eu gosod mewn lle.

**Nodweddion gwarchodedig** yw:

- oedran
- trosglwyddiant rhyw
- bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil
- bod yn feichiog neu ar absenoldeb mamolaeth
- anabledd
- hil

- crefydd neu gredo
- rhyw
- tueddfryd rhywiol.

**Nyrsys**: Pobl y'u dysgir i ddarparu gofal diogel a charedig i helpu pobl sydd â phroblemau iechyd ac i helpu pobl i gadw'n iach.

**Pobl dduon, Asiaidd a rhai o ethnig leiafrifol:** Pobl a allai fod â lliw croen gwahanol. Neu â chrefydd wahanol. Gallent ddod o wlad wahanol. Neu fyw mewn ffordd wahanol. Gall rhai ddod o fwy nag un wlad neu gefndir.

**Safonau:** Dywed y rhain sut y dylai myfyrwyr gael eu dysgu, beth ddylai pobl ei ddisgwyl, a beth sy'n rhaid I fyfyrwyr ei wybod er mwyn dod yn nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio.

## Clodrestr

Cynlluniwyd a chynhyrchwyd y papur hwn ar gyfer y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Y mae’n cynnwys deunydd o’r casgliad “Inspired Easy Read Collection” ac ni chaiff ei ddefnyddio yn unman arall heb ganiatâd ysgrifenedig gan Inspired Services Publishing Ltd.
Cyf ISL105 26. Ebrill 2026.

www.inspiredservices.org.uk

**Speaking Up Together** -
Creu gwybodaeth EasyRead

Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

**Rheolydd nyrsio a bydwreigiaeth ar gyfer Lloegr, Cymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon. Elusen gofrestredig yn Lloegr a Chymru (1091434) ac yn yr Alban (SC038362).**

**23 Portland Place, London W1B 1PZ**
**T 020 7637 7181**
**www.nmc.org.uk**